Newyddion Bethlehem

www.gwe-bethlehem.org Gwaelod-y-garth Rhifyn Gwanwyn 2011

Roedd tri mis o weithgareddau Bethlehem i'w gwasgu i'r rhifyn hwn! Dyna benbleth golygydd ddewisodd gyhoeddi'r Bwletin blaenorol yn union cyn y Nadolig. Bellach mae digwyddiadau'r Nadolig a'r Plygain, a hyd at gyfnod Gŵyl Dewi a'r Pasg, angen eu cywasgu rhwng y tudalennau. Os gadawyd rhywbeth allan, rhowch wybod – i ni ei gynnwys y tro nesaf!

Plant yr Ysgol Sul Bore yn dathlu Gŵyl Dewi – a'r arlunydd Anthony Evans

Yr arferiad bellach ar fore Gŵyl ein Nawddsant, Mawrth 1af, yw cynnal oedfa fer a byrfyfyr ym Methlehem â phob un oedd yn dymuno hynny'n cyfrannu fel y gwêl orau. Yna, ar y bore Sul, bu'r plant yn cynnal eu gwasanaeth hwythau – a chafwyd sgwrs gan yr arlunydd Anthony Evans. Yna, cafwyd gwledd yn y Festri (gweler yr hanes isod).

A fore Mawrth 1af, dewis Huw Roberts, Yr Eglwys Newydd, oedd sôn am ei bererindod o Landdewi Brefi i Dyddewi y llynedd, gan gyplysu hynny a'i bererindod i Santiago de Compostela yn Sbaen. Dyna arwyddocad y gragen (yn y llun isod) ddaeth Huw i'w ganlyn – cragen y pererin sy'n arwydd o'i bererindod drwy Sbaen. Ers hynny,mae Huw wedi cael sylw'r cyfryngau am ei lwyddiant yn ennill apeliadau yn erbyn hawliadau Cyllid y Wlad am ddyledion honedig. Y Sul o'r blaen roedd ei hanes wedi cyrraedd adran trafod arian y Sunday Times (ond yma mae llun y gragen!)

Y Cinio Gwyl Dewi

Ar Sul cyntaf mis Mawrth, daeth tua hanner cant o oedolion a thua pymtheg o blant i'r festri i wledda ar gawl, bara, caws a phice ar y maen. Er fod ychydig bryder am allu'r stof i ddal pwysau trydanol cynhesu saith sosbenaid, (y trip switch yn mynd i ffwrdd drwy'r amser, ac Aled druan yn gorfod tyfu yn saith troedfedd mewn amrantiad, i wasgu'r botwm cywir!) daethpwyd i ben yn rhyfeddol, diolch i June, oedd yn byw ddigon agos ac â phopty meicrdon.

Canlyniad hyn fu i rai ddod am ail fowlenaid (ac ambell un bedwaredd!!). Diolch o galon i wirfoddolwyr y cawl, pice, a'r bara a'r caws, wrth gwrs. Llwyddwyd i godi dros £250.

Dyma un o olygfeydd mwy traddodiadol cyflwyniad Nadolig 2010. Ond gan mai'r thema oedd "Campau'r Nadolig" (gan Heulwen Jones) 'doedd yr holl stori ddim mor syml â hynny – ac yn sicr, fel gwelwch ar dudalen arall, nid aelodau cyson yr Ysgol Sul oedd y cyfan o'r cast!

Rhai o aelodau'r Cwrdd Merched uwch eu cinio yn y Tŷ Thai yn Yr Eglwys Newydd.

Hanesion Y Cwrdd Merched a Ffarwelio â thair diacones

Y Cwrdd Merched

Agorwyd y tymor ar nodyn trist wrth i ni golli un o'n haelodau ffyddlonaf sef Ann Beech. Bydd yr atgof o'i hynawsedd a'i gwên barod yn aros gyda ni. (Mae teyrned Alun iddi ar y dudadeln gyferbyn)

Tamaid o frethyn cartre' oedd cyfarfod mis Ionawr. Bu June Lloyd yn rhoi braslun o'i bywyd o'i geni yn y Rhondda, i'w hyfforddiant yng ngholeg Cyncoed, cyn mynd i ddysgu yn Lloegr ac yna nol i Radur yn 2008. Er ei bod yn ddysgwraig, fe wnaeth June y cyfan yn Gymraeg. Yn ail hanner y cyfarfod bu June Huws yn son am bythefnos yn Bejing pan aeth am hyfforddiant T'ai Chi yn ogystal ag ymweld a rhannau o'r wlad. Wedyn fe gawson ni brofi ychydig o Tai Chi. Gwledd o brynhawn!

Neilltuwyd mis bach, fel arfer, ar gyfer ein Gweinidog. Testun sgwrs Alun oedd "Y Porfeydd Gwelltog" sef cymdeithas a sefydlwyd gan Llwyd o'r Bryn (Robert Lloyd). Yr aelodau gwreiddiol oedd grwp o ddynion a fynychai'r Eisteddfod Genedlaethol gan aros mewn ysguboriau. Darllennodd Alun gofnod Llwyd o'r Bryn o rai o'r ymweliadau hynny. Wedyn fe roddodd grynodeb o hanes cystadleuaeth y Llwyd o'r Bryn. Cawson ni brynhawn llawn ffraethineb a hiwmor.

Ein siaradwr gwadd ym mis Mawrth oedd Hefin Mathias ac unwaith eto fe gawson ni wledd o wybodaeth. Teitl darlith Hefin oedd "Rhyfel a Heddwch" ac roedd wedi paratoi cannoedd o luniau a siartiau i'n helpu ni i ddeall cefndir y cyfnod rhwng y ddau rhyfel byd. 'Rwy'n siwr ein bod tipyn yn gallach ar ddiwedd y prynhawn!

Fel roedd y rhifyn hwn ymddangos cawsom hanes taith Ann a Rhodri i'r India. Cawsom ddarlun o faint a chyflwr y wlad a chip ar rai o'r golygfeydd trawiadol.

Trefnwyd noson ddifyr iawn gan Marian nos Fawrth, Chwefror 8fed i ffarwelio â thair diacones a diolch iddyn nhw am eu cyfraniad ardderchog dros y blynyddoedd. Cafwyd gwledd wedi ei choginio gan Marian ac Eirlys ac roedd y croeso yn Windsor Road yn gynnes iawn - er i John druan ddianc am ei fywyd o weld saith diacones siaradus a llwglyd yn cyrraedd!

Bu'r tair, June Huws, Carol Davies Jones a Gwenno Huws yn brysur dros y blynyddoedd yn cyfrannu'n dawel a diffwdan, yn cofrestru priodasau, cadw golwg ar y cyfraniad yn Affrica, trefnu Suliau, trefnu rota Te Tabernacl a stondin gacennau fisol, dim ond i enwi ychydig o'u cyfraniad.

Roedd y môr o chwerthin wrth y bwrdd bwyd yn donic i bawb ohonom a diolch o galon i Marian am ei threfnu. Wrth ddiolch i'r tair am eu gwaith cawsom hefyd gyfle i ddymuno'n dda i Gwenno ac Alun yn eu cartref newydd ger y lli yn Y Cnap, Y Barri.

~ ~ ~

Cofiwch am Drip y Merched i Aberglasne a Llandeilo ar Fai 10ed. Bydd y bws yn gadael Y Gofgolofn, Radur, am 9 y bore. Os hoffech ymuno, rhowch eich enw i Mary Edwards, Gwaelod-y-garth.

Cyfeiriadau:

Gweinidog: Y Parchedig Ddr R. Alun Evans, Y Wenallt, 8 Heol Elmgrove, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2BW
Ffôn: 02920 520 854
e-bost: ralun.evans@virgin.net

(Gwnewch nodyn o'r newid isod)
Ysgrifennydd Bethlehem: Rhodri-Gwynn Jones
Ffôn: 029 20 89 00 39
e-bost: rhodrigj@tiscali.co.uk

Colli Ann Beech

Isod, mae talfyriad o'r deyrnged draddodwyd gan y gweinidog yn angladd y ddiweddar Ann Beech, Ffynnon Tâf. Cydymdeimlwn â'i phriod, Gordon – ac â'r teulu, Catherine, Stephen, Gareth a Bethan a Rowan, Gwilym, Libby, Elin a Garin.

Ganed Ann Gwenllian Howell Beech yng Ngwaelod-y-garth ar Ionawr 28ain 1936 ac, hyd y gwyddon ni, fe'i bedyddiwyd yn y capel hwn tua dechrau'r haf y flwyddyn honno. Y Gweinidog bryd hynny oedd y Parchedig R. G. Berry. 1936 oedd y flwyddyn y cyflwynwyd tysteb iddo wrth ddathlu deugain mlynedd yn weinidog yma. Yn ei Gofiant iddo fe ddywed y Parchedig Huw Ethall "Yng ngolwg aelodau Bethlehem, Gwaelod-y-garth, yn ystod ei weinidogaeth yno yr oedd Berry yn sant yn ogystal ag athrylith." Roedd gan Ben Howell atgof byw yn ei blentyndod o weld cylch (*halo*) uwch ben y gweinidog yn y pulpud yn gyson. "Y dyn gorau a gyfarfûm erioed" oedd barn T. W. Thomas amdano.

Ann oedd unig blentyn Rebecca ac Alun Phillips, dau fu'n aelodau ar hyd eu hoes ym Methlehem ac ym Methlehem y priodwyd hi a Gordon ar Awst 4ydd 1962 gan y gweinidog yr adeg honno, Y Parchedig Gwilym Morris.

Roedd gan Ann, felly, atgof – atgof plentyn ar y dechrau – am bob un ohonom ni sydd wedi cael y fraint o fod yn Weinidogion ar yr eglwys hon. O siarad o'm profiad fy hun, fe gafodd swydd 'Gweinidog Bethlehem' barch a chefnogaeth ganddi. Fe welodd hi lanw a thrai yma ar wahanol gyfnodau o ran aelodaeth a ffyddlondeb i oedfaon. Dwi'n gwybod ei bod hi'n gwerthfawrogi'r gwmnïaeth niferus a brwdfrydig sy'n mynychu'r cymun yma y dyddiau hyn, a dyna oedd ein profiad ni'r bore 'ma .

Ym myd addysg y treuliodd Ann ei hoes. Pan aeth hi ei hun i'r ysgol gyntaf fedrai hi ddim siarad Saesneg. Roedd hi wedi ei magu ar aelwyd Gymraeg ac yn mynychu capel Cymraeg.

Pan gychwynnodd hi fynd i'r ysgol gynradd yng Ngwaelod-y-garth, allai hi ddim siarad Saesneg, ond fe ddysgodd yn fuan gan y byddai wedyn yn mynychu Ysgol Ramadeg Caerffili – oedd yn ysgol dda ond ymhell o fod yn gaer o Gymreictod. Ym 1954 aeth i Goleg Cartrefle, y Coleg Hyfforddi Athrawon yn Wrecsam.

Roedd ei swydd gyntaf fel athrawes yn Dudley, Swydd Gaerwrangon – lle roedd ganddi 49 yn ei dosbarth. 'Does ryfedd iddi ymddeol yn gynnar! Gadael Dudley yn 1958 i ddysgu yn Ysgol y Babanod Tongwynlais; yna dysgu yn Ysgol Nantgarw gan orffen ei gyrfa yno fel Pennaeth.

Cyn ei hymddeoliad cynnar, bu'n Bennaeth Dros Dro yn Nantgarw. Nodwedd amlwg ohoni oedd ei pharch at blant. Ystyriwch chi mai mewn ardaloedd digon difreintiedig y bu hi'n gweithio – Dudley, Tongwynlais, Nantgarw – doedden nhw ddim yn fannau llewyrchus a roedd hi bob amser yn gwerthfawrogi haelioni'r disgyblion a'r rhieni fel ei gilydd.

Roedd hi'n hoff o gwmni ac o ambell i egwyl oddi cartref. Yn gymdeithasol edrychai ymlaen at deithiau a chyngherddau blynyddol Sefydliad y Merched. Roedd hi'n mwynhau teithiau Clwb Bowlio Awyr Agored Yr Eglwys Newydd a Chlwb Bowlio Dan Do Rhydyfelin i Ddyfnaint a'r Alban. Roedd hi hefyd yn ymuno â Gordon ar daith flynyddol Clwb Rygbi Ffynnon Tâf i'r Barri a dathliad Calan Clwb Golff Caerffili – ar yr egwyddor "Gwell bod yno nac oddi yno!"

I ni ym Methlehem, yr hyn sy'n aros yw ei hagwedd di-feddwl-ddrwg, ei ffyddlondeb, ei pharodrwydd i weld y gorau mewn pobol. Chlywais i erioed mohoni yn bychanu neb. Ac felly roedd hi yn Ysbyty Frenhinol Morgannwg Llantrisant ac Ysbyty Felindre – canmol y staff am bob gofal ac am wneud popeth posib i leddfu poen. Dewr i'r diwedd.

= =

Trefn Suliau Bethlehem

EBRILL – Cyfnod Y Pasg
22 – Gwener y Groglith – gwasanaeth byr am 10.30
24. Oedfa Sul y Pasg:
Y Parchg. R. Alun Evans a "Mynyddoedd y Meseia" (Côr y capel)

MAI
1. Y Parchg. John Gwilym Jones.
8. Y Parchg. R. Alun Evans (Cymun)
15. Oedfa Cymorth Cristnogol
22. Y Parchg. Dafydd Andrew Jones
29. Y Parchg. Lona Roberts

MEHEFIN
5. Gwasanaeth Ardal : Radur
12. Y Parchg. R. Alun Evans (Cymun)
19. Y Parchg. Cynwil Williams
26. Y Parchg. R. Alun Evans
Cymanfa Ganu yn yr hwyr

GORFFENNAF
3. Oedfa dan ofal yr aelodau
10. Y Parchg. R. Alun Evans (Cymun)
17. Sul y Cyfundeb
24. Y Parchg. R. Alun Evans
31. Oedfa dan ofal aelodau Bethlehem

AWST
7. Oedfa yn Efail Isaf (Cymun)
14. Oedfa ym Methlehem
21. Oedfa yn Efail Isaf
28. Oedfa ym Methlehem

MEDI
4. Y Parchg. Milton Jenkins
11. Y Parchg. R. Alun Evans
18. Y Parchg. Allan Pickard
25. Y Parchg. R. Alun Evans

HYDREF
2. Gwasanaeth Ardal : Pentyrch
9. Y Parchg. R. Alun Evans (Cymun)
16. Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant
23. Y Parchg. R. Alun Evans
30. Y Parchg. Dafydd Owen

TACHWEDD
6. Y Parchg. Cynwil Williams
13. Y Parchg. R. Alun Evans (Cymun)
20. Y Parchg. Jeff Williams
27. Y Parchg. R. Alun Evans

RHAGFYR
4. Ymweld â Chartre'r Henoed (bore)
Gwasanaeth 9 Llith a Charol (nos)
11. Bore, Ymarfer yr Ysgol Sul..
Y Parchg. R. Alun Evans (Cymun, 5pm)
18. Gwasanaeth Nadolig y Plant
25. Y Parchg. R. Alun Evans

John; Sara, Mali ac Aine; Huw

Gruffydd a Lara; Heulwen (yr awdur); Meilir a Gruffydd; Alys, Elinor a Carys

Campau'r Nadolig

– bydd yn anodd i'r Gemau Olympaidd fod yn well na'r rhain!

Dylan, Llew a Bethan; Alwyn, Gruffydd, Peredur, Cerith, Arwel, Gwenllian a Delyth

Wnawn ni ddim enwi'r ffans yn y galeri! Trowch i'r dudalen flaen am lun gwell o'r Angylion (Marged, Manon, Ffion, Morfudd, Beca, Megan a Mari) a'r Bugeiliaid (Aled, Ifan a Morgan).

Cyfansoddwyd y gerddoriaeth gan Ieuan



Rhai o leisiau a wynebau'r Canu Plygain ym Methlehem yn Ionawr.
A'r tri unadawydd (chwith a dde) fydd gyda ni ar fore Sul y Pasg – (gweler isod)

Ffarwelio a Chroesawu!
(chwith) Bore Sul olaf yr hen organ yn y capel. (dde) Y llawenydd yn amlwg ar wyneb Yr Athro Peter Wyn Thomas wedi i'r offeryn newydd gyrraedd.
Bydd **Cymanfa Ganu** dan arweiniad Gwawr Owen, Yr Eglwys Newydd, yn cael ei chynnal ar Ddydd Sul, Mehefin 26, i ddathlu dyfodiad yr organ newydd – a bydd cwmni Andante'n recordio ar gyfer Caniadaeth y Cysegr.

Tudalen y Gân

Un o ymarferion cynnar côr cynulleidfa Bethlehem fydd yn cyflwyno detholiad o "Mynyddoedd y Meseia", gan Robat Arwyn a John Gwilym Jones, yn y gwasanaeth fore Sul y Pasg. Mae'r gwaith yn olrhain taith y Meseia ar hyd yr amrywiol fynyddoedd. Yr unawdwyr fydd Catherine Blythe, Marged Siôn a Ieuan Wyn.

“Lle neis iawn yw Llansannan”

Dyna oedd y llinell olaf i’w datgan mewn noson o ffarwel i Sheila a Rhys Dafis, Creigiau, gan eu bod bellach wedi’n gadael a dychwelyd i Lansannan, Clwyd, bro mebyd Rhys, ar ôl iddyn nhw dreulio dros ugain mlynedd yn ein plith.
Daeth cynrychiolaeth o sawl gweithgaredd a mudiad ardal ynghyd yn Festri Bethlehem i ddymuno’n dda iddyn nhw. Roedd hi’n noson oedd yn perthyn i bawb, ond yn deyrnged i ddau fu’n hynod weithgar a bywiog yn ein plith am gymaint o flynyddoedd. Cyfeiriodd y Gweinidog fel y bu Sheila mor weithgar yn y gymuned a’r eglwys a Rhys yntau’n athro Ysgol Sul, arweinydd CAIB ac ysgrifennydd y capel. Bu sawl cyfeiriad pellach at yr agweddau hyn gan y cyfranwyr, oedd yn cynnwys ein haelodau ym Methlehem - Delwyn Sion, Catrin Dafydd, Rhodri-Gwyn Jones, Huw Llywelyn Davies, Wynford Ellis Owen ac Ifan Roberts.
Bydd y papur bro Tafod Elai yn cynnwys rhai o’r cyfarchion eraill. Fe soniwn ni am gyfraniadau o Fethlehem, a heb anghofio diolch i bawb am y lluniaeth, yn yr union festri y bu to ar ôl to o egin gynganeddwyr yn mynychu dosbarth nos Rhys. Dyma i chi un o’r selogion hynny, Catrin Dafydd, Gwaelod y Garth, yn cofio cyngor yr athro iddi un noson:

Clywed y geirie

Gwranda ar y geirie,
gad iddynt oglais yn dy glustie.
Llyfa'r llefaried, sibrwd y cytseinied
rhyngot ti a thi dy hun
a'th lyged tua'r sêr.

Nadda dipyn wedyn, a chwynnu
a chyn pen dim, dônt i'w lle,
dônt i drefen,
yn glwstwr o ystyr, â'u straeon eu hunen.

Roedd y cwlwm o atgofion fideo ar ddechrau’r noson yn gyfrwng i atgoffa pawb o’r hyn y bu’r ddau’n ymwneud â nhw – Sheila’n weithgar yn y gymuned, Clwb Y Dwrlyn; Merched y Garth, Merched y Wawr, yn gynghorydd, actores ac yn trin gwalltiau ar aelwydydd y fro; Rhys, yntau’n ysgogwr Talyrnwyr a seiadau llenyddol Y Mochyn Du, ac yn fardd llys Parti’r Efail. Roedd y Parti yno i gyfrannu’r a chafodd Rhys ymuno’n y gân olaf!
Dewisodd yr arch-gyhoeddwr, Rhodri Gwyn, fesur tribannau Morgannwg (hoff fesur y diweddar T. W.Thomas) i gyfarch:

Yn oriel Clwb y Dwrlyn
Bydd dau o hyd yn eilun
Fu siopa’n Tesco ‘rioed ‘run peth
‘Rol penbleth talu’r teclyn.

I ardal caed gwasanaeth,
Ar aelwyd caed cwmnïaeth;
Ein diolch heno i chwi’ch dau
Fu’i ninnau’n ysbrydoliaeth.

Serenâd (o waith Ifan) ac iddi thema nid anhebyg gyflwynwyd gan drwbadwr y diaconiaid, Delwyn Sion:

Mae pennau balch Llansannan
Yn methu credu’i lwc
Eu bod mewn man mor wledig
Yn gwisgo’r “Creigiau Look”.
Cyn hir fe fydd Moel Famma
Ag ‘extensions’ yn ei gwallt
Am fod un Sheila Dafis
Ar gael i dorri gwallt.

Ynghanol awdl Aled Gwyn,oedd yn gofidio am yr ymadawiad, ac a ddarllenwyd gan ei frawd, yr Archdderwydd Jim Parc Nest, roedd y dyfyniad isod:

“Un o sylwedd yw Sheila
Dyma her, gad hi mwy 'ma.”

Daeth y llinell sydd yn ein pennawd yn ystod darlleniad Wynford (un arall o blant Llansannan) o gywydd gan Emyr Davies,(Tîm y Taeogion a chyd-ganwr efo Rhys yng nghôr “Ar ôl tri”). Dyma i chi ddetholiad bach o rai o’r llinellau ogleisiodd y gynulleidfa:

Googlais y geiryn ‘gogledd’
A chael llun erchyll ei wedd:
Yn ôl rhai, Sheila a Rhys,
Iglws ac eirth peryglus
A welwch, a dim heulwen -
Twll o le dan fantell wen ...

...A chofiwch, mynnwch eich map
Gan Inuit, rhag un anhap ...

...Ewch â het, ewch â chotiau,
O ach y dewr ’rych chi’ch dau.
Ond er hyn a’r darlun du,
Mae yna rai sy’n mynnu
Gan glochdar i bedwar ban:
Lle neis iawn yw Llansannan!

Gair gan y Gweinidog

Roedd y llety'n llawn unwaith eto a Jeriwsalem yn orlawn ar gyfer Gŵyl y Bara Croyw. I ganol y ddinas fe ddaeth Iesu yn marchogaeth ebol asyn. O'i gwmpas roedd torf o gefnogwyr. Codai hynny ddychryn ar yr offeiriaid, ar Caiaffas yr Archoffeiriad yn fwy na neb. Fe wyddai mai bregus oedd ei reolaeth dros y boblogaeth ar y gorau ac y gallai Peilat, ar fympwy, ddewis rhywun arall yn ei le. Felly roedd yn rhaid delio efo'r Galilead yn wleidyddol ochelgar. Wedi'r cyfan, nid yr Iesu `ma oedd yr unig athro carismatig yn Jiwdea'r ganrif gyntaf.

Un grŵp ymhlith llawer oedd yr eglwys yn Jeriwsalem wedi'r croeshoelio. Ymhlith y cenedl-ddynion, nid ymhlith yr Iddewon, y tyfodd Cristnogaeth. Teithiodd Paul, ac eraill, i wledydd y Môr Canoldir gan ddechrau yn y trefi a'r pentrefi glan-môr. Wedyn treiddio i mewn i'r wlad ac ymlaen i Rufain. Bu brwdfrydedd a bu siom. Bu ymateb a bu merthyrdod. A thrwy'r cyfan bu goddefgarwch.

'Dyw goddefgarwch ddim yn rhinwedd amlwg yn y Dwyrain Canol heddiw. Yr hyn a welwn ni yw dynion sarrug, hyd yn oed blant a phobl ifanc, yn tanio gynnau a thaflegrau; yn sgrechian sloganau a chuddio eu hwynebau. Yr un nodwedd sydd i'r elfen fygythiol honno mewn protestiadau yn Llundain – trais a chuddio wyneb.

Mor hawdd y gallai Iesu fod wedi cuddio rhag yr awdurdodau. Mor hawdd yw bod yn ddewr mewn torf ddi-wyneb. Cuddio wnaeth y disgyblion a chanlyn o hirbell. Rheswm da, ugain canrif yn ddiweddarach, i ni ddangos ein hwyneb heb ofni a chyhoeddi 'Cododd Iesu' ar Ŵyl y Pasg eleni.

R Alun

NEWYDDION

Cydymdeimlwn â Margaret Oehler a'r teulu, Creigiau. Ar ôl cyfnod maith o ofal, bu farw tad Margaret, Mr Albert John o Rydaman, yn 95 mlwydd oed ddiwedd Chwefror.

Hefyd â Sheila Dafis, Creigiau (a Llansannan bellach), gollodd ei thad, Mr Joseph Hugh Edwards yn Llandderfel yn Ionawr.

Croeso i'n plith, Mabon (uchod) mab Lowri a Gwion ap Rhisiart, Grangetown, gafodd ei fedyddio ym Methlehem – Lowri wrth gwrs yn un o blant Bethlehem a Gwion yn wreiddol o Lanuwchllyn.

A chroeso hefyd i fabi newydd - Anna Fflur, merch Haf a Rhodri Tilsley, Radur - a chwaer i Garmon Llŷr. Fe'i ganed ar Chwef 5ed.

Anfonwn ein cofion at Mrs Nancy Evans, mam Marian Jones, Creigiau, sydd yn ei hôl yng Nghartref Duffryn Ffrwd ar ol cyfnod o waeledd yn Ysbyty Frenhinol Morgannwg. Hefyd at Mary Slade, Yr Eglwys Newydd, a'r Dr Dafydd Huws, Ffwrnes Blwm, y ddau wedi bod yn cael triniaethau.

Llongyfarchiadau i Eirlys a Cerith, Pentyrch – yn hen famgu a hen da'cu am y trydydd tro. Ond dyma'r or-wyres gynta (wyrion yw'r ddau arall) a'i henw hi yw Millie. Mae'r teulu yn byw yn ardal Marshfield o Gaerdydd.

Dymuniadau da i Daniel Mathias (mab Hefin a Catrin, Yr Eglwys Newydd), sy'n gweithio yn Hong Kong am 6 mis fel cyfreithiwr.

Llongyfarchiadau i Marian a John Evans, Radur, ar ddathlu 40 mlynedd o briodas. Y gwr fu'n gwasanaethu yn y seremoni honno yn Ebrill 1971 oedd un o gydweithwyr John yn y BBC yr adeg honno – un o'r enw Y Parchedig R. Alun Evans.

Hoff emyn? – Mae Marian Evans yn awyddus i ganfod pa emynau hoffech chi ganu yn y Gymanfa Ganu ar Fehefin 26. Bydd yn dechrau holi wedi'r Pasg.

Yr eira mawr a Mari!

Mae'r tywydd mawr a gawson ni dros gyfnod y Nadolig yn debygol o aros yn hwy na'r cyffredin yng nghof un pâr ifanc o'n plith - Mari Elin Osborne (gynt) a Gareth Rhys Williams. Y cynllun oedd priodi ym Methlehem, ond oherwydd y trwch eira bu'n rhaid newid lleoliad y briodas y diwrnod cynt, gan ei bod yn amhosibl cyrraedd y capel (yn wahanol i Fair a Joseff - jôc y gweinidog!). Symudwyd y gwasanaeth i Westy Dewi Sant yn y Bae lle'r oedd y brecwast yn digwydd beth bynnag.

Yng ngeiriau Shan, mam Mari, "Ar ôl diwrnod llawn pryder a thywydd ofnadwy, gwawriodd dydd y briodas yn fendigedig - dim cwmwl, awyr las ac eira gwyn - ond lot ohono! Gwasanaeth hyfryd dan ofal y gweinidog - yn edrych allan ar Y Senedd, Y Bae a Chanolfan y Mileniwm - hudolus!. Y teulu a ffrindiau wedi dod o bell ac agos drwy'r eira. Ond doedden nhw ddim wedi priodi tan y flwyddyn newydd! Digwyddodd hynny ym Methlehem, eto dan ofal y gweinidog - a finne, mam y briodferch, yn gofrestrydd! Mae ganddyn nhw ddau ddyddiad a dwy briodas i ddathlu."

Ychwanegodd Shan, "Does dim llawer wedi priodi dwywaith o fewn mis! Felly, priodas go arbennig a chofiadwy!"

Er gwaetha'r eira, llwyddwyd i gyrraedd Heathrow a hedfan am fis mêl ym Malaysia. Dymunwn yn dda i'r pâr newydd - y ddau'n gyfreithwyr, Mari gyda'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol (NHS) a Gareth mewn cwmni yng Nghasnewydd.

Drws Agored

Yn ystod y gaeaf a'r gwanwyn bu criw bychan yn trafod cerddi'r Goron (Glenys Roberts), yn ystyried y bydysawd yng nghwmni'r Dr Emyr Macdonald ac yn cael ysgytwad wrth ddarllen cyfrol Aled Jones Williams 'Y Cylchoedd Perffaith' a'i ddrama 'Iesu.'

Yr hydref nesaf bydd y Drws yn agored unwaith eto i drafod 'Damhegion y Deyrnas' dan arweiniad y Gweinidog.

Te i'r Digartref yn Y Tabernacl, Caerdydd

Bydd Ken a Judith yn croesawu clywed oddi wrth unrhyw un sy'n cynnig enw i'r "banc" o wirfoddolwyr a rhai wrth gefn.

Dyma'r e-bost:
afallon88@tiscali.co.uk

Trysorfa Cath

Mae'n werth i chi edrych ar ein gwefan: **www.gwe-bethlehem.org** - mae yno lawer mwy o wybodaeth am ein heglwys na'r hyn y gellir ei gynnwys yn y bwletin newyddion hwn.

Un ychwanegiad diddorol diweddar yw **"Trysorfa'r Plant"** casgliad Cath Edwards, Llandaf, o adnodau, gwirebau a chwpledi. Mae'n ffynhonnell gyfoethog i rieni sy'n chwilota am eiriau newydd i'r plant ei dysgu ar gyfer yr oedfa! Dyma i chi ragflas:

Dysg ddoethineb cyfaddawdu canys gwell yw plygu ychydig na thorri.

Os nad yw cyfle'n curo, adeilada ddrws.

Nid yw Duw yn gwneud ei waith
Heb ei orffen yn berffaith.

Dysgwch y plant nid trwy esiampl o rym ond trwy rym eich esiampl.

Gofalwch am blant nid trwy gyfri'r munudau ond trwy wneud i bob munud gyfri

Nid yw'r gwaith o'n blaenau yn fwy na'r grym a gawn i'w gyflawni.

Does dim digon o dywyllwch yn yr holl fyd i ddiffodd hyd yn oed y gannwyll leia'.